

# Lleoliad Newydd i Natur

## Cynorthwyydd Ymgysylltu

**DYDDIAD CAU:** 12.00pm, dydd Gwener 17eg Chwefror 2023

---


Cymdeithas Eryri Snowdonia Society | Rhif cofrestru'r elusen 1155401

Caban, Brynrefail, Caernarfon, Gwynedd LL55 3NR

[01286 685498] | [mary-kate@snowdonia-society.org.uk]

[www.snowdonia-society.org.uk]

GROUNDWORK
CHANGING PLACES
CHANGING LIVES
Made possible with
Heritage Fund
THE QUEEN'S PLATINUM JUBILEE 2022
Disability Rights UK
MISSION DIVERSE
Prince's Trust
Youth Environmental Service

# GWYBODAETH AM NEWYDD I NATUR

Diolch i chi am ddangos diddordeb yn y lleoliad Newydd i Natur hwn.

Mae Newydd i Natur yn rhaglen gyffrous o leoliadau gwaith cyflogedig mewn rolau sy'n canolbwyntio ar natur. Mae hon yn un o 70 rôl a fydd yn cael eu creu ar draws y DU i ddenu doniau ifanc ac amrywiol i'r sector Amgylchedd Naturiol.

**Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gael ceisiadau gan bobl ifanc (18-25 oed) sy'n dod o gefndiroedd ethnig amrywiol, sy'n byw ag anabledd neu sy'n dod o aelwydydd incwm isel.**

Byddwch yn cael cyflog da ar leoliad sy'n helpu'r amgylchedd, yn dysgu llwyth o sgiliau i roi hwb i'ch CV ac yn cael help Hyfforddwr Cyflogaeth Ieuenctid i'ch helpu i gynllunio eich gyrfa i'r dyfodol. Bydd cyfleoedd hefyd i ddysgu am yrfaoedd posibl yn yr amgylchedd naturiol, ac (os ydych chi awydd) cysylltu â'r bobl ifanc eraill sy'n gweithio mewn rolau Newydd i Natur ar hyd a lled y wlad.

Dyma gyfle unigryw i roi cynnig ar rywbeth newydd, ac i gymryd cam cyntaf ar lwybr gyrfa lle gallwch chi wneud gwahaniaeth go iawn. Mae eich angen chi ar yr amgylchedd naturiol!

Gobeithio byddwch chi'n ymuno â ni ar y daith gyffrous hon!

## GWYBODAETH AM Gymdeithas Eryri Snowdonia Society

Cymdeithas Eryri yw elusen gadwraeth Eryri, a sefydlwyd yn 1967.  Mae Cymdeithas Eryri yn helpu pobl i wneud gwahaniaeth i'r llefydd gwych sy'n gwneud Eryri mor arbennig.

Heddiw, ni yw'r prif sefydliad annibynnol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar Barciau Cenedlaethol.  Mae gennym 9 aelod o staff, cannoedd o wirfoddolwyr a dros 1400 o aelodau. Ein nod fel elusen gofrestredig yw gwarchod a gwella harddwch a rhinweddau arbennig Eryri a hyrwyddo eu mwynhad er budd pawb sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio ynddi neu'n ymweld â hi nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr yn dîm gwych.  Mae'r tîm hwnnw'n gweithio gyda llawer o sefydliadau eraill i wneud gwaith cadwraeth a gofal tir cadarnhaol ar hyd a lled Parc Cenedlaethol Eryri. Mae angen pobl arbennig i ofalu am lefydd arbennig – felly dewch i ymuno â ni!

**Manteision gweithio gyda ni:**

- ✓ Gweithio hyblyg – Rydyn ni'n gweithio mewn ffordd ystwyth ac mae gennym ddiwylliant o ymddiriedaeth.
- ✓ Hawl Gwyliau – 28 diwrnod a gwyliau banc (pro rata)
- ✓ Pensiwn – cyfraniadau cyflogwr 6%
- ✓ Cynlluniau Teithio – costau teithio am yr holl waith y tu allan i'r swyddfa
- ✓ Darperir hyfforddiant a chefnogaeth
- ✓ Cyflogwr cyflog byw
- ✓ Cyflogwr Chwarae Teg
- ✓ Telerau gwell ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir, yn amodol ar ddigon o wasanaeth.
- ✓ Rydyn ni'n cefnogi pob aelod o staff mewn ffordd weithredol ac mae gennym bolisïau trwyadl ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, niwroamrywiaeth a'r menopos a mislif, mae pob un ar gael ar gais.
- ✓ Rydyn ni'n annog ac yn cefnogi pob cyflogai i fynd ar drywydd cyfleoedd datblygu

# PROSES RECRIWTIO

## CAIS

Gallwch chi wneud cais am y lleoliad hwn drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
www.surveymonkey.co.uk/r/NTNPlacementApplication22

Groundwork UK sy'n gyfrifol am y cam hwn a bydd yn gwirio pa mor addas yw'r ymgeiswyr, cyn trosglwyddo'r cais i'r sefydliad sy'n cynnal y lleoliad, a fydd yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer proses gyfweld anffurfiol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis y rôl gywir o'r gwymprestr yn ofalus, er mwyn sicrhau bod eich manylion yn cael eu trosglwyddo i'r sefydliad cywir sy'n cynnig y lleoliad.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffurflen gais, cysylltwch â Groundwork UK yn: newtonature@groundwork.org.uk

## CYFWELIADAU

Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi a ydych chi wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Rydyn ni'n disgwyl cynnal y cyfweliadau wyneb yn wyneb neu dros alwad fideo **ddydd Mercher 1af Mawrth**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl neu'r broses gyfweld, mae croeso i chi gysylltu â ni yn: mary-kate@snowdonia-society.org.uk

## DISGRIFIAD O’R LLEOLIAD

| | |
|---|---|
| **Teitl y lleoliad:** | Cynorthwyydd Ymgysylltu |
| **Sefydliad:** | Cymdeithas Eryri |
| **Math o gontract:** | 12 Mis, Cyfnod penodol |
| **Nifer yr oriau fesul wythnos:** | 35 awr yr wythnos. Bydd rôl ran-amser yn cael ei hystyried fel addasiad rhesymol. |
| **Patrwm gweithio:** | Hyblyg i ddiwallu anghenion yr unigolyn a Chymdeithas Eryri |
| **Cyfradd cyflog fesul awr** | £10.90 yr awr (Cyflog byw gwirioneddol) |
| **Yn atebol i:** | Mary-Kate Jones |
| **Lleoliad:** | Swyddfa: Caban, Brynrefail. Mae opsiynau gweithio gartref ar gael. Mae’n bosib y bydd gwaith wyneb yn wyneb yn digwydd ar hyd a lled Gogledd Eryri. |
| **Oes modd cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus:** | Oes. Mae Brynrefail, sef lleoliad ein swyddfa, ar lwybr bws rheolaidd rhwng Bangor a Llanberis. Byddwn yn cytuno ymlaen llaw ar unrhyw leoliadau ar gyfer gwaith wyneb yn wyneb gan ystyried anghenion trafnidiaeth yr unigolyn a benodir. |
| **Dyddiad Cychwyn Disgwyliedig:** | Dydd Llun 17eg Ebrill, 2023 |

---

## DISGRIFIAD O'R RÔL

Os ydych chi eisiau helpu i ofalu am yr amgylchedd, efallai mai dyma'r swydd i chi. Diolch i gymorth drwy’r gronfa ‘Newydd i Natur’, rydyn ni’n recriwtio person ifanc i’r rôl Cynorthwyydd Ymgysylltu.

Bydd y rôl amrywiol hon yn eich galluogi i ennill ystod eang o sgiliau a phrofiad i'ch helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd am amrywiaeth o faterion amgylcheddol a chadwraeth - a fydd yn eich helpu i symud ymlaen yn y sector amgylcheddol. Mae’r trydydd sector yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o warchod ein tirweddau arbennig ac mae hwn yn gyfle delfrydol i ddysgu mwy am sut mae elusennau a sefydliadau di-elw yn gweithio gyda’r cyhoedd a chyda sefydliadau partner.

Fel Cynorthwyydd Ymgysylltu, byddwch yn cael eich hyfforddi a'ch cefnogi i wneud y canlynol:

- Recriwtio aelodau, aelodau busnes, cefnogwyr a gwirfoddolwyr newydd amrywiol ar gyfer Cymdeithas Eryri ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Cefnogi staff i ddatblygu a chyflwyno rhaglen eithriadol o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus sy'n codi proffil y Gymdeithas ac yn gwella enw da'r Gymdeithas.
- Cefnogi ymgysylltiad y Gymdeithas â grwpiau cymunedol ac aelodau'r cyhoedd i'w helpu i reoli safleoedd ar gyfer cadwraeth.
- Gweithio gyda staff eraill i ddatblygu ein gwaith mewn partneriaeth â sefydliadau eraill
- Mynychu digwyddiadau a gweithgareddau sefydliadau eraill fel platfform recriwtio a rhwydweithio
- Cyfrannu at fonitro a gwerthuso gwaith y Gymdeithas, a, gyda staff eraill, datblygu adroddiadau effaith effeithiol.
- Helpu gydag agweddau eraill ar waith y Gymdeithas yn ôl yr angen
- Bydd cyfleoedd i ennill profiad a sgiliau mewn gwaith cadwraeth ymarferol a chwblhau hyfforddiant achrededig perthnasol

## MANYLEB Y PERSON

- ✓ Rydyn ni'n chwilio am siaradwr Cymraeg ar gyfer y swydd hon a fydd yn golygu gweithio gyda'r cyhoedd.  Rydyn ni'n annog dysgwyr Cymraeg brwdfrydig i wneud cais
- ✓ Diddordeb brwd mewn cadwraeth/amgylchedd/Eryri
- ✓ Gallu cymell eich hun, yn ymroddedig, yn drefnus ac yn ddibynadwy
- ✓ Cyfathrebu'n dda
- ✓ Mae angen hyblygrwydd oherwydd bydd y gweithgareddau'n cael eu cynnal ar benwythnosau yn ogystal ag yn ystod yr wythnos, ac efallai bydd angen gweithio gyda'r nos.  Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd hwn yn gweithio'r ddwy ffordd ac, ar yr amod bod anghenion y Gymdeithas yn cael eu diwallu, byddwn yn eich cefnogi i gynllunio eich gwaith o gwmpas ymrwymiadau eraill

## CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD HYFFORDDI

Mae'r lleoliad hwn yn rhan o raglen genedlaethol – Newydd i Natur – a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys elfennau ychwanegol o gefnogaeth hyfforddiant a datblygiad personol a ddarperir gan Groundwork UK a phartneriaid, yn ogystal â hyfforddiant a chefnogaeth yn y gwaith gan Gymdeithas Eryri.

Bydd pob person ifanc yn cwblhau rhaglen gynefino fanwl gyda mewnbwn gan y Prince's Trust, ynghyd â chyngor ac arweiniad wedi'i deilwra gan Hyfforddwr Cyflogaeth Ieuenctid Groundwork ar adegau allweddol yn ystod y lleoliad. Gall hyn gynnwys adnabod sgiliau a chyfleoedd hyfforddi neu helpu gyda'ch CV a'ch sgiliau chwilio am waith.

Bydd Cymdeithas Eryri hefyd yn darparu cefnogaeth i gyfranogwyr, gan gynnwys:

- Cynefino
- Hyfforddiant cymorth cyntaf
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch
- Cwblhau Cynllun Llysgenhadon Eryri
- Cyfleoedd cysgodi a mentora
- Cynefino a hyfforddiant arwain Caru Eryri
- Hyfforddiant achrededig mewnol ar gyfer unigolion sydd â diddordeb (e.e. cynnal a chadw llwybrau troed neu reoli rhywogaethau goresgynnol)

Bydd yr holl bobl ifanc ar y rhaglen Newydd i Natur yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn Rhwydwaith Dysgu. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwahanol sgyrsiau, gweithdai a thrafodaethau sy'n canolbwyntio ar y sector amgylcheddol, dan ofal Groundwork a'n partneriaid.